**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 15 IONAWR 2025**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Hybrid yn Siambr y Cyngor - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB ddydd Mercher, 15 Ionawr 2025 am 10:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | HJ David | RM Granville | GH Haines |
| AW Ulberini-Williams | | | |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Griffiths | ML Hughes | RL Penhale-Thomas | T Thomas |
| AJ Williams | ED Winstanley | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Rhoddodd y Cynghorydd Simon Griffiths a'r Cynghorydd Martin Hughes eu hymddiheuriadau am orfod gadael y cyfarfod yn gynnar.

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Arweinydd |
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad |
| Cynghorydd Melanie Evans | Yr Aelod Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai |
| | |
| Mark Shepherd | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| | |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Martin Morgans | Pennaeth Partneriaethau a Thai |
| Eilish Thomas | Rheolwr Cyllid – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles / Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datgan Buddiannau

Y Cynghorydd Elaine Winstanley – eitem 4 – Personol – gan ei bod hi'n weithiwr gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol AWEN sy'n cael ei chrybwyll yn yr adroddiad.
Y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas – eitem 4 – Personol – gan ei fod yn gweithio yn y sector tai.
Y Cynghorydd Amanda Williams – eitem 4 – Personol – gan ei bod hi'n Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Coety ac yn Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Brynteg.

## 140. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 16 Rhagfyr 2024 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir yn amodol ar y cyd-destun pellach canlynol yn cael ei ddarparu ynghylch argymhelliad 6:<br><br>Gwnaed yr argymhelliad hwn yn dilyn trafodaethau ynghylch Amcan Lles 3: Bwrdeistref Sirol gyda Chymunedau Ffyniannus yn y Cymoedd, a bod y Pwyllgor yn fodlon dechrau'r broses sy'n ymwneud â'r 3 chwm a'r 13 Cynghorydd sy'n cynrychioli'r ardaloedd hynny. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

## 141. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2025-26 i 2028-29

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaeth fanwl ag Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r argymhellion canlynol: |

| | |
|---|---|
| | **Argymhellion**<br><br>1. **Argymhellodd** y Pwyllgor y canlynol:<br><br>a. cynnwys rhestr termau gyda'r holl adroddiadau ariannol sydd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor er mwyn cynorthwyo preswylwyr i ddarllen a deall yr adroddiadau;<br>b. egluro p'un a yw unrhyw ostyngiadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad mewn termau net neu real;<br>c. cynnwys siartiau/graffeg sy'n dangos:<br>i. y cynnydd canrannol yn y Dreth Gyngor dros y cyfnod y cyfeirir ato;<br>ii. y twf demograffig yn y fwrdeistref;<br>iii. y twf demograffig o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac yn genedlaethol;<br>iv. y gostyngiad yn y defnydd o staff asiantaeth.<br>d. darparu data cymhariaeth sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng y cynnydd arfaethedig i'r Dreth Gyngor a'r cynnydd cyfartalog yng nghyflogau staff ar draws yr awdurdod.<br><br>2. **Argymhellodd** y Pwyllgor dreialu cyllidebu ar sail sero mewn maes dethol o'r Gyfarwyddiaeth i'w bennu gan uwch swyddogion.<br><br>3. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid anfon llythyr ar ran y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n:<br><br>a. nodi y dylid ariannu'r ymrwymiadau polisi cenedlaethol sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol yn llawn o ran cyllid cyfalaf a chyllid refeniw parhaus gan gynnwys ymrwymiad i ariannu taliadau yswiriant gwladol cyflogwyr i unigolion a gyflogir gan asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i'r Cyngor sydd ar hyn o bryd yn arwain at bwysau cost o £1.5m; ac yn<br>b. nodi pryder ynghylch hwyrni'r setliad dro ar ôl tro, yn gofyn am ymrwymiad i gyflwyno dyddiad y setliad ac yn gofyn am ystyried darparu setliadau aml-flwyddyn dangosol.<br><br>4. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried sut gallai modelau buddsoddi i arbed, cydweithredu pellach a rhannu arfer gorau ar draws awdurdodau lleol o ran TGCh, a defnyddio deallusrwydd artiffisial hwyluso arbedion.<br><br>5. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid anfon llythyr ar ran y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n argymell yn gryf eu bod yn gweithredu'r broses o gofrestru unigolion yn awtromatig i bob budd-dal y maent yn gymwys iddynt/mae ganddynt hawl iddynt pan fyddant yn gwneud cais am fudd-dal arall. |

6. Cydnabu'r Pwyllgor na fanteisir ar yr arian i'r Cyngor ac ysgolion gan unigolion nad ydynt yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, ac **argymhellwyd** bod cyfathrebiadau allanol ar draws y Cyngor yn cael eu cyhoeddi gan annog preswylwyr i hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, gan gynnwys Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai a Phrydau Ysgol Am Ddim Cymwys a hyrwyddo proses cofrestru awtomatig y Cyngor.

7. Gan gyfeirio at y cynnig i leihau'r gyllideb, CEX 6, y **argymhellodd** y Pwyllgor fod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor at Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i asesu ei dibyniaeth ar y gwasanaeth teledu cylch cyfyng a grëwyd ac a reolir gan y Cyngor ac a yw cyfraniad Comisiwn yr Heddlu a Throseddu at y gwasanaeth teledu cylch cyfyng wedi'i gwtogi a gofyn am ymateb cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 28 Ionawr 2025.

8. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid cynnal trafodaethau manwl â chynghorau tref a chymuned cyn gwneud awgrymiadau mewn cyfarfodydd y gallai cynghorau tref a chymuned eu cynorthwyo wrth drafod bylchau ariannu.

9. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod cynnig twf cyllideb ar gyfer Cynorthwy-ydd Caffael (CEX 5) mewn Caffael canolog, roeddent yn adlewyrchu nad oedd digon o gapasiti, ar adegau, o fewn Cyfarwyddiaethau i ddarparu cyfraniadau amserol i'r broses Gaffael ac **argymhellwyd** bod angen rhoi mwy o frys ar gaffael gan dynnu sylw at ei fod yn hanfodol i ddull un cyngor.

10. Mynegodd y Pwyllgor bryder bod yr holl gynigion arbedion cyllideb o fewn Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwyr ac ar draws y Cyngor yn goch ac, o bosibl, yn anodd eu cyflawni. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod mwyafrif helaeth y gwariant yn y meysydd hyn yn cael ei wneud ar staffio a byddai'r arbedion yn destun ymgynghoriad ac felly byddent yn parhau'n goch nes bod y rhain wedi'u cwblhau ac yna roedd yn debygol y gellid eu cyflawni. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod y naratif yn y cynnig arbedion cyllideb yn adlewyrchu'r sefyllfa honno a'i statws coch.

**Rhagor o Wybodaeth**

11. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ymateb swyddogion ynghylch a oedd twf poblogaeth y fwrdeistref sirol yn creu mwy o alw mewn ardaloedd penodol, e.e. a oedd teuluoedd â phlant ag anghenion arbennig yn symud i'r ardal i fanteisio ar y cynnig o ysgolion arbennig yn y sir neu a oedd pobl hŷn yn symud i'r ardal.

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**

| | |
|---|---|
| | 12. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gopi o'r adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ddiwedd mis Ionawr 2025 i gynorthwyo'r Pwyllgor i nodi gwasanaethau statudol ac anstatudol a ddarperir gan Wasanaethau Rheoleiddio a Chorfforaethol.<br><br>13. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ymateb ysgrifenedig yn nodi:<br><br>a. gwerth meincnod atebolrwydd benthyca'r Cyngor;<br>b. lefel fenthyca bresennol y Cyngor;<br>c. a all y Cyngor gynyddu ei fenthyca i gefnogi prosiectau cyfalaf; ac<br>d. eglurhad ynghylch a yw benthyca allanol o dan y meincnod atebolrwydd yn nodi gofyniad benthyca ac a yw benthyca allanol uwchben y meincnod atebolrwydd yn dynodi sefyllfa lle mae gorfenthyca.<br><br>14. <u>Cynigion Lleihau Cyllideb - CEX 6</u><br><br>**Gofynnodd** y Pwyllgor am y canlynol:<br><br>a. map o'r lleoliadau camerâu teledu cylch cyfyng;<br>b. gwybodaeth am ba feysydd gwasanaeth sy'n elwa o'r gwasanaeth teledu cylch cyfyng, h.y. a yw'n cynnwys y tu allan i oriau, monitro larymau ar gyfer adeiladau'r Cyngor, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ac ati;<br>c. cadarnhad o feysydd gwasanaeth eraill a allai elwa o ddefnyddio'r gwasanaeth teledu cylch cyfyng ond nad ydynt yn gwneud hynny eto;<br>d. manylder gronynnog sy'n nodi beth mae swm yr arbediad o £444k yn ei olygu;<br>e. eglurder ynghylch Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 o ran ble mae'r cyfrifoldeb statudol am y gwasanaeth teledu cylch cyfyng a phwy sy'n bartneriaid dan fandad, gan gynnwys a ystyrir Cynghorau Tref a Chymuned yn bartneriaid statudol o dan y Ddeddf;<br>f. diwygio'r naratif yn y cynnig i leihau'r gyllideb i adlewyrchu a oedd yr arbediad yn ymwneud â chael gwared ar y gwasanaeth neu adolygiad sy'n ceisio cyfraniadau gan bartneriaid statudol er mwyn cynnal y gwasanaeth teledu cylch cyfyng. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**

## 142. Diweddariad am y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad, cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A, gan nodi'r Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc yn Atodiad C, Ch a D, a nodi'r Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion i dracio ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiadau B, Dd, E a F: |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

## 143. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 14:19.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**